

Diogelu data – cofrestru eich sefydliad

Mae'r ffurflen hon ar gyfer sefydliadau (defnyddiwn y term hwn i gynnwys holl reolyddion data, gan gynnwys unig fasnachwyr, cwmnïau, ac ASau) sydd angen cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth dan y Ddeddf Diogelu Data.

Ni ddylai gymryd mwy na 10 munud i'w llenwi. Wedi i chi ei chwblhau, cadwch y ddogfen PDF hon, ei hatodi i e-bost a'i hanfon i [FY\[\]ghfUhlcb@ico.org.uk](mailto:FY[]ghfUhlcb@ico.org.uk).

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i weinyddu'ch cofrestrriad ac i gynnal y gofrestr gyhoeddus. Byddwn yn cyhoeddi'r holl wybodaeth a roddwch, oni bai ein bod yn dweud fel arall.

1. Amdanoch chi

Math o sefydliad:

Os dewisoch 'Arall', rhowch fanylion:

Enw'r sefydliad:

Rhowch deitl cyfreithiol cywir y rheolydd data. Rhoddir enghreifftiau isod.

- Unig fasnachwyr: rhowch enw llawn yr unigolyn, e.e. Anna Katherine Smith.
- Partneriaethau: Rhowch enw masnachu'r cwmni, e.e. Buttersfield & Co.
- Cwmnïau cyfyngedig neu gyfyngedig cyhoeddus: rhowch enw llawn y cwmni, e.e. ABC Limited, nid eich enw masnachu.
- Grwpiau o gwmnïau: ni all grwpiau o gwmnïau gyflwyno hysbysiad sengl. Rhaid i gwmnïau unigol sy'n rheolyddion data hysbysu ar wahân.
- Ysgolion: rhowch enw'r ysgol, e.e. Ysgol Hazeldown. Yn yr Alban, dim ond ysgolion yn y sector annibynnol sydd angen cofrestru; cynhwysir pob ysgol arall o fewn hysbysiad yr awdurdod lleol perthnasol.
- Eraill, e.e. cyrff gwirfoddol: rhowch yr enw a ddefnyddir gan y cyhoedd i'ch adnabod, e.e. Ficer Eglwys Llanyma.

Cyfeiriad:

Ar gyfer cwmnïau cyfyngedig, rhowch gyfeiriad eich swyddfa gofrestredig.

Rhif cofrestru'r cwmni (os yw'n berthnasol):

Enwau masnachu:

Rhowch unrhyw enwau masnachu a ddefnyddiwch.

Sector:

Natur y gwaith:

Dywedwch wrthym beth yw natur y gwaith e.e. gofal plant, asiant tai, cymdeithas dai. Byddwn yn defnyddio eich ateb i'n helpu i ddisgrifio'r mathau o ddata personol a brosesir gennych. A hoffech weld y rhestr lawn a ddefnyddiwn? Gallwch [weld y disgrifiadau 'natur gwaith'](#) ar ein gwefan.

2. Rhesymau ychwanegol dros brosesu data

Bydd eich cofrestriad yn cynnwys disgrifiad o brosesu yn seiliedig ar natur y gwaith a wnewch. Fodd bynnag, mae angen i ni wybod os ydych yn prosesu data am resymau ychwanegol. Dewiswch isod os ydych chi'n prosesu data am y rhesymau canlynol:

- Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) i atal troseddau
- Gwasanaethau ymgynghori a chynghori
- Masnachu a rhannu gwybodaeth bersonol
- Darparu gwasanaethau ariannol a chyngor
- Gwneud gwaith ymchwil

3. Trosglwyddo data

A ydych chi'n trosglwyddo data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd?

Ydw **Nac ydw**

4. Prif fanylion cyswllt

Rhowch fanylion y sawl sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn eich sefydliad. Byddwn yn e-bostio copi o'r cofnod cofrestru i'r cyfeiriad hwn. Dim ond i gysylltu â chi ynglŷn â'r

cofrestrriad hwn y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon. Ni fyddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar y gofrestr gyhoeddus.

Teitl:

Enw:

Teitl swydd:

E-bost:

Ffôn:

**Defnyddiwch y cyfeiriad a roddais yn '1' uchod
Rhowch gyfeiriad arall**

5. Dweud wrth gwsmeriaid sut i gysylltu â chi

Dewisol. Mae gan bobl, e.e. cwsmeriaid, yr hawl i ofyn i chi am y data a gedwir gennych amdanynt. Gallwch ddewis rhoi unrhyw rai o'r manylion isod y byddwn ni'n eu cyhoeddi ar y gofrestr gyhoeddus i roi gwybod i'ch cwsmeriaid at bwy y dylent gyfeirio eu cais.

**Defnyddiwch y teitl swydd a roddais uchod
Neu, deitl swydd arall:**

**Defnyddiwch y cyfeiriad e-bost a roddais uchod
Neu, gyfeiriad e-bost arall:**

**Defnyddiwch y rhif ffôn a roddais uchod
Neu, defnyddiwch rif ffôn arall:**

**Defnyddiwch y cyfeiriad a roddais uchod
Neu, gyfeiriad arall:**

6. Ymrwmiadau eraill

Yn ogystal â'r ymrwymiad i gofrestru, mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gydymffurfio â rheolau eraill am yr wybodaeth sydd ganddynt. Rhowch wybod i ni sut ydych chi'n bodloni'ch rhwymedigaethau dan y Ddeddf Diogelu Data trwy ymateb i'r datganiadau canlynol. Ni fyddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar y gofrestr gyhoeddus, ond mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi ar sail yr ymatebion a roddwch.

Mae rhywun yn fy ngweithle yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.

Ie **Na**

Mae pobl berthnasol yn fy ngweithle wedi cael hyfforddiant ar sut i drin gwybodaeth bersonol.

Ie **Na**

Wrth gasglu gwybodaeth bersonol, byddwn yn rhoi gwybod i bobl sut fyddwn yn ei defnyddio.

Ie **Na**

Mae gennym broses ar waith er mwyn ymateb i geisiadau am yr wybodaeth bersonol a gedwir gennym.

Ie **Na**

Rydym yn cadw cofnodion o wybodaeth bersonol pobl yn gyfredol ac nid ydym yn eu cadw am fwy nag sydd angen.

Ie **Na**

Mae gennym fesurau ar waith i gadw'r data personol a gedwir gennym yn ddiogel.

Ie **Na**

7. Faint fydd angen i mi dalu?

Dim ond i gyfrifo'r ffi sydd angen i chi ei thalu y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon. Ni fyddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar y gofrestr gyhoeddus.

7a. A yw'ch sefydliad yn elusen, neu a oes ganddo statws elusennol esempt?

Ydy Y ffi ar gyfer eich sefydliad fydd £35. Ewch i 8.

Na Ewch i 7b.

Mae 'elusen' yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn sefydliad a sefydlwyd i ddibenion elusennol yn unig. Yn yr Alban, mae'n golygu corff a gofnodwyd ar Gofrestr Elusennau'r Alban. Mae hyn yn cynnwys rhai ysgolion. I weld disgrifiad llawn o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn elusen esempt, gweler [Rhan 1 o Ddeddf Elusennau 2006](#) neu [Ddeddf Elusennau \(Gogledd Iwerddon\) 2008](#).

7b. A oes gan eich sefydliad fwy na 249 o staff?

Oes Ewch i 7c.

Na Y ffi ar gyfer eich sefydliad fydd £35. Ewch i 8.

7c. A yw'ch sefydliad yn awdurdod cyhoeddus? Byddwn yn cyhoeddi hyn ar y gofrestr gyhoeddus.

Ydy Ewch i 7e.

Na Ewch i 7d.

7d. A oedd gan eich sefydliad drosiant o dros £25.9 miliwn neu fwy yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf?

Oedd Ewch i 7e.

Na Y ffi ar gyfer eich sefydliad fydd £35. Ewch i 8.

7e. A yw'ch sefydliad wedi bodoli am fwy nag 1 mis?

Ydy Y ffi ar gyfer eich sefydliad fydd £500. Ewch i 8.

Na Y ffi ar gyfer eich sefydliad fydd £35. Ewch i 8.

8. Llofnodi a dyddio

Llofnod:

Dyddiad:

9. Anfon eich cais atom

1. Llenwch y ffurflen hon a'i **chadw ar eich cyfrifiadur**.
2. Agorwch neges e-bost newydd, gyda 'Cofrestriad newydd diogelu data' yn y llinell pwnc.
3. E-bostiwch y ffurflen wedi ei chwblhau atom yn registration@ico.org.uk

Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn yn paratoi cofnod cofrestru drafft ac yn ei e-bostio atoch i'w wirio, ynghyd â manylion sut i dalu.

Tanysgrifiwch i'n cylchlythyr: <http://www.ico.org.uk/news/e-newsletter>